Agenda - Y Cyfarfod Llawn

Lleoliad y cyfarfod:

Y Siambr - Y Senedd

Dyddiad y cyfarfod:

Dydd Mawrth, 10 Mai 2022

Amser y cyfarfod: 13.30

69(v3)

Cynhelir y cyfarfod hwn ar ffurf hybrid, gyda rhai Aelodau yn Siambr y Senedd ac eraill yn ymuno drwy gyswllt fideo.

Mae'r Llywydd wedi penderfynu y bydd Aelodau, yn unol â Rheol Sefydlog 34.14A-D, yn gallu pleidleisio o unrhyw leoliad drwy ddull electronig.

1 Cwestiynau i'r Prif Weinidog

(45 munud)

Bydd y Llywydd yn galw ar Arweinwyr y Pleidiau i ofyn cwestiynau heb rybudd i'r Prif Weinidog ar ôl Cwestiwn 2.

Gweld y Cwestiynau

2 Datganiad a Chyhoeddiad Busnes

(30 munud)

Gweld y Datganiad a Chyhoeddiad Busnes

3 Datganiad gan y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol: Diweddariad ar Covid-19

(30 munud)

4 Datganiad gan y Gweinidog Newid Hinsawdd: Safon Ansawdd Tai Cymru 2

(30 munud)

5 Datganiad gan y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol: Fframwaith Canlyniadau Iechyd a Gofal Cymdeithasol

(30 munud)

6 Datganiad gan y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol: Etholiadau Llywodraeth Leol

(30 munud)

7 Rheoliadau Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 (Diwygiadau Canlyniadol) (Rhannu Swydd a Chynorthwywyr Gweithrediaeth) 2022

(15 munud)

NDM7995 Lesley Griffiths (Wrecsam)

Cynnig bod y Senedd, yn unol â Rheol Sefydlog 27.5:

1. Yn cymeradwyo bod y fersiwn ddrafft o Reoliadau Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 (Diwygiadau Canlyniadol) (Rhannu Swydd a Chynorthwywyr Gweithrediaeth) 2022 yn cael ei llunio yn unol â'r fersiwn ddrafft a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 29 Mawrth 2022.

Dogfennau Ategol

Memorandwm Esboniadol

Adroddiad y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad

8 Cyfnod pleidleisio

Cynhelir Cyfarfod Llawn nesaf y Senedd am 13.30, Dydd Mercher, 11 Mai 2022

Cwestiynau Llafar a gyflwynwyd ar 05/05/2022 i'w hateb ar 10/05/2022

Bydd y Llywydd yn galw ar lefarwyr y pleidiau i ofyn cwestiynau heb rybudd ar ôl cwestiwn 2.

PRIF WEINIDOG

Rhys ab Owen *Canol De Cymru*

1 OQ58004 **(e)**

Pa drafodaethau y mae'r Prif Weinidog wedi'u cael gyda Llywodraeth y DU a chynghorau ynghylch effaith Deddf Diogelwch Adeiladu 2022 y DU ar drigolion Cymru?

Jack Sargeant *Alun a Glannau Dyfrdwy*

2 OQ58012 **(e)**

Beth mae Llywodraeth Cymru yn ei wneud i sicrhau bod lleisiau plant sy'n derbyn gofal a'r rhai sy'n gadael gofal yn cael eu clywed i'w galluogi i lywio penderfyniadau polisi, fel diwygio'r gwasanaethau presennol mewn modd radical?

Rhun ap Iorwerth *Ynys Môn*

3 OQ58030 **(w)**

A wnaiff y Prif Weinidog rannu'r wybodaeth ddiweddaraf am darged Llywodraeth Cymru i ddileu hepatitis C yng Nghymru?

Huw Irranca-Davies *Ogwr*

4 OQ57994 **(e)**

Pa gynlluniau sydd gan Lywodraeth Cymru i gofáu 10 mlynedd ers lansio llwybr arfordir Cymru?

Laura Anne Jones *Dwyrain De Cymru*

5 OQ58018 **(e)**

Pa gamau y bydd Llywodraeth Cymru'n eu cymryd yn sgil adroddiad interim adolygiad Cass?

Mike Hedges *Dwyrain Abertawe*

6 OQ57993 **(e)**

Pa asesiad y mae'r Prif Weinidog wedi'i wneud o'r defnydd o ddiswyddo ac ailgyflogi gan gwmnïau yng Nghymru?

Tom Giffard *Gorllewin De Cymru*

7 OQ58022 **(e)**

A wnaiff y Prif Weinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf am ddyfodol ynni adnewyddadwy yng Nghymru?

Joel James *Canol De Cymru*

8 OQ58011 **(e)**

A wnaiff y Prif Weinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf am sut y mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu clirio'r rhestrau aros ar gyfer gwasanaethau awdioleg?

Carolyn Thomas *Gogledd Cymru*

9 OQ58009 **(e)**

Pa gamau y mae Llywodraeth Cymru'n eu cymryd i hyrwyddo cyflogaeth yn y sector cyhoeddus?

Janet Finch-Saunders *Aberconwy*

10 OQ58005 **(e)**

A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am gyllid ar gyfer cartrefi gofal yng Ngogledd Cymru?

Sian Gwenllian *Arfon*

11 OQ57999 **(w)**

A wnaiff y Prif Weinidog roi diweddariad ar gynllun ar gyfer ysgol feddygol y Gogledd?

Llyr Gruffydd *Gogledd Cymru*

12 OQ58031 **(w)**

Beth mae Llywodraeth Cymru yn ei wneud i wella lefelau'r nifer sydd yn pleidleisio mewn etholiadau lleol?